



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru  
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Gyfun Tredegar  
Lôn Stabl  
Tredegar  
Blaenau Gwent**

**NP22 4BH**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau  
Estyn  
Llys Angor, Heol Keen  
Caerdydd  
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru](mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:  
[www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru)

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 13/12/2016

## Cyd-destun

Ysgol gyfun cyfrwng Saesneg 11 i 16 oed a gynhelir gan awdurdod lleol Blaenau Gwent yw Ysgol Gyfun Tredegar. Mae 649 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd. Mae hyn gryn dipyn yn llai nag ydoedd adeg yr arolygiad diwethaf, pan oedd 960 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 139 o ddisgyblion yn y chweched dosbarth. Caewyd chweched dosbarth yr ysgol yn 2013.

Mae tua 28% o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn ymhell uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 17.1% ar gyfer ysgolion uwchradd yng Nghymru. Mae tua 50% o ddisgyblion yn byw yn y 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae bron pob un o'r disgyblion yn siarad Saesneg fel eu mamiaith ac yn dod o gefndir gwyn, Prydeinig. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn rhugl yn y Gymraeg.

Mae gan ryw 26% o ddisgyblion angen addysgol arbennig, sydd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 25.1%. Mae gan 2.4% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig, sy'n cyd-fynd â'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er 2012. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn cynnwys dirprwy bennaeth a dau bennaeth cynorthwyol. Mae dau arweinydd canol yn cynorthwyo'r uwch arweinwyr parhaol ar hyn o bryd fel uwch dîm arweinyddiaeth 'estynedig'.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gyfun Tredegar yn 2016-2017 yn golygu mai'r gyllideb yw £4,740 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion uwchradd ym Mlaenau Gwent yw £4,740 a'r isafswm yw £4,512. Mae Ysgol Gyfun Tredegar yn y safle cyntaf o'r ddwy ysgol uwchradd ym Mlaenau Gwent o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

<b>Perfformiad presennol yr ysgol</b>	<b>Da</b>
<b>Rhagolygon gwella'r ysgol</b>	<b>Da</b>

### Perfformiad presennol

Bernir bod perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 wedi gwella mewn llawer o ddangosyddion ac yn cymharu'n dda â pherfformiad ysgolion tebyg, er bod perfformiad mewn Saesneg wedi gostwng yn 2016
- mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf iawn o gyfnodau allweddol blaenorol
- mae cyfraddau presenoldeb pob grŵp o ddisgyblion yn eithriadol o uchel
- mae'r ysgol yn darparu dull cryf a chyson ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion
- mae ansawdd yr addysgu yn nodwedd gref o waith yr ysgol
- Yn y rhan fwyaf o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth
- mae ymddygiad disgyblion yn arbennig o dda, mae ganddynt agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu ac yn dangos balchder eithriadol yn eu hysgol
- mae'r ethos gofalgaf a chynhwysol yn hyrwyddo disgwyliadau uchel yn llwyddiannus i bawb ac yn dathlu cyflawniadau disgyblion yn dda iawn

### Rhagolygon gwella

Bernir bod y rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn ac yn cyfleu gweledigaeth glir, sy'n cael effaith amlwg ar bob agwedd ar fywyd yr ysgol
- mae arweinyddiaeth effeithiol wedi sicrhau gwelliannau cryf ym mhresenoldeb disgyblion a'u perfformiad mewn llawer o ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4
- mae arweinwyr ar bob lefel yn dadansoddi data yn dda i fonitro cynnydd pob disgybl a chynllunio ymyriadau effeithiol
- ceir diwylliant cryf o atebolrwydd a hunanarfarnu trylwyr, er nad yw arweinwyr yn rhoi sylw digon cyson i arfarnu safonau a chynnydd disgyblion wrth graffu ar lyfrau
- mae gan lywodraethwyr rôl bwysig o ran gosod cyfeiriad strategol yr ysgol, ac maent yn herio a chefnogi'r ysgol yn effeithiol
- caiff ystod eang o bartneriaethau hynod effeithiol effaith sylweddol ar safonau, cynnydd a lles disgyblion

## Argymhellion

- A1 Gwella safonau mewn Saesneg yng nghyfnod allweddol 4
- A2 Sicrhau bod yr holl weithgareddau hunanarfarnu yn canolbwyntio'n gyson ar safonau a chynnydd disgyblion

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

#### Safonau: Da

Rhwng 2013 a 2015, yng nghyfnod allweddol 4, bu gwelliant mewn perfformiad ym mhob dangosydd. Mae data dros dro ar gyfer 2016 yn awgrymu bod y gwelliant hwn wedi parhau mewn llawer o ddangosyddion. Yn 2015, mae perfformiad ym mhob un o'r dangosyddion yn gosod yr ysgol yn yr hanner uwch o ysgolion tebyg ar sail cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim, ar ôl ei gosod yn yr hanner is mewn llawer o ddangosyddion ar gyfer y ddwy flynedd flaenorol. Yn 2016, yn ôl data dros dro, mae perfformiad mewn llawer o ddangosyddion yn parhau i osod yr ysgol yn hanner uwch yr ysgolion tebyg. Am y ddwy flynedd ddiwethaf, mae disgyblion wedi gwneud cynnydd cryf iawn o gyfnodau allweddol blaenorol.

Bu gwelliant yn nhrothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg a mathemateg, rhwng 2013 a 2015. Yn 2015, mae perfformiad yn gosod yr ysgol yn hanner uwch yr ysgolion tebyg, ar ôl ei gosod yn yr hanner is yn 2013 ac yn y chwarter isaf yn 2014. Mae perfformiad yn y dangosydd hwn yn 2015 ymhell uwchlaw deilliannau wedi'u modelu, ar ôl cyd-fynd â deilliannau wedi'u modelu am y ddwy flynedd flaenorol. Mae data dros dro ar gyfer 2016 yn dangos bod perfformiad yn nhrothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg a mathemateg, wedi gwella ychydig ac yn parhau i osod yr ysgol yn hanner uwch yr ysgolion tebyg.

Bu gwelliant yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio rhwng 2013 a 2015 ac mae wedi bod uwchlaw deilliannau wedi'u modelu am y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae hyn yn gosod yr ysgol yn hanner uwch yr ysgolion tebyg yn 2014 a 2015. Bu gwelliant sylweddol mewn perfformiad yn nhrothwy lefel 2 rhwng 2013 a 2015, ac mae'n gosod yr ysgol yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg yn 2015. Bu gwelliant mewn perfformiad o ran llwyddo i gael pum gradd A\*-A mewn TGAU rhwng 2013 a 2015 ac mae wedi bod uwchlaw cyfartaledd y teulu yn gyson yn ystod y cyfnod hwn. Mae data dros dro ar gyfer 2016 yn awgrymu bod perfformiad ym mhob un o'r dangosyddion hyn wedi parhau i wella.

Yng nghyfnod allweddol tri, ar lefel 5 neu'n uwch, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd wedi gwella ychydig dros y tair blynedd ddiwethaf.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae merched yn perfformio'n well na bechgyn yn y teulu o ysgolion tebyg mewn llawer o ddangosyddion. Fodd bynnag, mae perfformiad bechgyn islaw cyfartaledd y teulu ar gyfer bechgyn mewn llawer o ddangosyddion. Yng nghyfnod allweddol 4, bu gwelliant ym mherfformiad bechgyn ym mhob dangosydd rhwng 2013 a 2015 ac roedd uwchlaw cyfartaledd y teulu ar gyfer bechgyn mewn llawer ohonynt. Mae perfformiad merched dros y cyfnod hwn wedi gwella ym mhob dangosydd hefyd. Roedd uwchlaw cyfartaledd y teulu mewn llawer o ddangosyddion yn 2015 ar ôl bod islaw cyfartaledd y teulu mewn hanner ohonynt yn 2014. Mae data dros dro ar gyfer 2016 yn dangos bod perfformiad bechgyn wedi parhau i wella ym mhob dangosydd, a bod perfformiad merched wedi parhau i wella mewn hanner ohonynt. Fodd bynnag, mae perfformiad merched mewn Saesneg wedi gostwng.

Rhwng 2013 a 2015, yng nghyfnod allweddol 3, bu gwelliant sylweddol ym mherfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn y dangosydd pwnc craidd ac mae hyn uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer y grŵp hwn o ddisgyblion. Yng nghyfnod allweddol 4, bu gwelliant ym mherfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ym mhob dangosydd rhwng 2013 a 2015. Mae perfformiad y grŵp hwn uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim mewn llawer o ddangosyddion.

Ar ddiwedd Blwyddyn 11, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn parhau â'u haddysg mewn ysgol neu goleg addysg bellach. Ni adawodd unrhyw ddisgyblion yr ysgol heb gymhwyster cydnabyddedig yn y pedair blynedd ddiwethaf.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos agwedd gadarnhaol at ddysgu. Maent yn ymgymryd â thasgau yn frwdfrydig ac yn dal ati i ganolbwyntio'n dda. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrando'n ofalus ar eu hathrawon ac ar ei gilydd ac yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol mewn parau neu grwpiau. Mae rhai disgyblion yn hynod effeithiol o ran cefnogi dysgu eu cyfoedion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn galw eu dysgu blaenorol i gof yn dda ac yn cymhwyso eu gwybodaeth a'u medrau i gyd-destunau newydd yn llwyddiannus. Maent yn dangos lefelau uchel o annibyniaeth a gwydnwch wrth roi cynnig ar dasgau heriol. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd cyson gryf yn eu gwersi.

Mae llawer o ddisgyblion yn siarad yn hyderus ac yn mynegi eu syniadau a'u barn yn glir. Mae ganddynt afael gadarn ar derminoleg pwnc a gwnânt gyfraniadau effeithiol at drafodaethau dosbarth a gwaith grŵp.

Mae llawer o ddisgyblion yn darllen ar goedd yn hyderus ac yn defnyddio ystod ddefnyddiol o strategaethau darllen, er enghraifft wrth frasddarllen a bwrw golwg dros destunau i ddewis gwybodaeth berthnasol. Mae lleiafrif ohonynt yn dangos medrau darllen lefel uwch cryf a gall rhai ohonynt gyfosod gwybodaeth o ystod o ffynonellau yn dda.

Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n rhugl ac yn gywir at ystod o ddibenion ac yn cynhyrchu darnau strwythuredig o waith estynedig. Mae disgyblion mwy abl yn cynhyrchu darnau ysgrifennu crefftus a difyr, gan gynnwys darnau disgrifiadol a naratif. Fodd bynnag, nid yw rhai disgyblion yn cymryd cyfrifoldeb digonol am wella ansawdd a chywirdeb eu gwaith. O ganlyniad, maent yn parhau i wneud gormod o gamgymeriadau sylfaenol. Mae rhai disgyblion, bechgyn yn bennaf, yn cynhyrchu gwaith sydd wedi ei gyflwyno'n wael neu wedi ei adael yn anghyflawn.

Mae gan lawer o ddisgyblion fedrau datrys problemau cadarn ac yn datblygu eu medrau rhifedd yn dda ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, maent yn dehongli data hinsawdd mewn daearyddiaeth ac yn dadansoddi gwybodaeth ystadegol mewn hanes. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos medrau TGCh datblygedig, er enghraifft wrth arfarnu a gwella eu gwaith mewn celf gan ddefnyddio technoleg cyfrifiadur llechen.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad mewn Cymraeg ail iaith yn gyson uwchlaw cyfartaledd y teulu. Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad wedi gwella'n sylweddol dros y tair blynedd ddiwethaf. Mae bron pob un o'r disgyblion yn dilyn y cwrs llawn TGAU ac mae llawer ohonynt yn cael gradd C neu'n uwch. Mae perfformiad yn y dangosydd hwn gryn dipyn uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol.

## Lles: Rhagorol

Mae lefel uchel lles disgyblion yn nodwedd ragorol yn yr ysgol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Dywed y rhan fwyaf ohonynt fod yr ysgol yn delio'n dda â bwlio a gweithredir yn gyflym ac yn effeithiol iawn ar unrhyw achosion. Mae bron pob un o'r disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth glir o sut i gadw'n iach trwy ddiet ac ymarfer corff. Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn ystod eang o weithgareddau allgyrsiol.

Mae ymddygiad disgyblion yn y dosbarth ac o gwmpas yr ysgol yn eithriadol o dda. Bron ym mhob un o'r gwersi, mae disgyblion yn dangos agweddau hynod gadarnhaol tuag at ddysgu ac maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig ym mhob gweithgaredd.

Mae cyfraddau presenoldeb yn rhagorol. Maent wedi gwella'n sylweddol dros y tair blynedd ddiwethaf ac wedi bod ymhell uwchlaw deilliannau wedi'u modelu trwy gydol y cyfnod hwn. Mae cyfraddau presenoldeb wedi gosod yr ysgol yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg ar sail cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim am y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae cyfradd yr absenoldebau parhaus wedi lleihau'n sylweddol ac mae ymhell islaw cyfartaledd y teulu, y cyfartaledd lleol a'r cyfartaledd cenedlaethol. Rhwng 2013 a 2015, bu gwelliant o bum pwynt canran ym mhresenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac yn 2015, roedd ymhell uwchlaw cyfartaledd Cymru ar gyfer y grŵp hwn o ddisgyblion. Mae bron pob disgybl yn cyrraedd gwersi a chyfnodau tiwtor yn brydlon.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo bod eu safbwyntiau'n cael eu cymryd o ddifrif. Maent yn cyfrannu mewn modd adeiladol at wneud penderfyniadau yn yr ysgol trwy ystod o grwpiau, fel y cyngor ysgol, grŵp gweithredu ar faeth a phwyllgor eco'r ysgol.

<b>Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b>
--

<b>Da</b>
-----------

### Profiadau dysgu: Da

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys, sy'n gweddu'n agos i anghenion disgyblion unigol ac yn adeiladu'n dda ar eu dysgu blaenorol. Yng nghyfnod allweddol 4, caiff disgyblion ddewis priodol o opsiynau cyffredinol a galwedigaethol. Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o weithgareddau allgyrsiol ac mae nifer dda o ddisgyblion yn eu mynychu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu llythrennedd a rhifedd disgyblion wedi ei sefydlu'n dda ac yn cael ei chydlynu'n dda. Mae cynllunio gofalus a dull cyson ar draws yr holl feysydd pwnc yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygu medrau disgyblion. Mae'r ysgol yn monitro'r cynnydd yn natblygiad medrau disgyblion yn agos ar draws y cwricwlwm. Mae hyn yn galluogi'r ysgol i nodi'n glir y disgyblion sydd â medrau llythrennedd a rhifedd gwan a chynllunio ymyriadau effeithiol. Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o gyfleoedd perthnasol ar draws y cwricwlwm ar gyfer disgyblion i ddatblygu eu medrau TGCh.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn nodwedd gref yn y ddau gyfnod allweddol, ac mae bron pob un o'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn dilyn y cwrs Cymraeg ail iaith TGAU llawn. Mae gwybodaeth a dealltwriaeth



disgyblion o hanes a diwylliant Cymru wedi eu datblygu'n dda trwy ystod o bynciau a gweithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys cymryd rhan yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ac ymweliadau preswyl â Llangrannog a Glanllyn.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ymwybyddiaeth gref o faterion datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae ymweliadau, gwasanaethau, 'Wythnos Thema' flynyddol a gweithgareddau pwnc yn cyfrannu'n dda at wybodaeth a dealltwriaeth disgyblion. Mae pwyllgor eco gweithgar yr ysgol yn arwain mentrau ysgol gyfan yn effeithiol ar faterion cynaliadwyedd fel ailgylchu ac arbed ynni.

### **Addysgu: Da**

Mae'r ysgol wedi llwyddo i sefydlu addysgu sy'n gyson gadarn. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar wella'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion.

Bron ym mhob gwrs, mae athrawon yn datblygu amgylchedd dysgu cefnogol a chynhyrchiol. Dangosant wybodaeth bynciol dda ac maent yn llwyddo i sefydlu perthnasoedd gweithio cryf ac arferion a ddeallir yn glir. Yn y gwrsi hyn, mae athrawon yn defnyddio adnoddau wedi eu paratoi'n ofalus sy'n ennyn disgyblion yn dda. Maent yn gosod amcanion dysgu clir sy'n helpu disgyblion i ddeall diben tasgau. Mae hyn yn helpu'r athro a'r disgyblion i asesu lefel y cynnydd a wneir yn glir.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel. Defnyddiant amrywiaeth o weithgareddau difyr a heriol i herio disgyblion a'u helpu i wneud cynnydd cadarn. Mae'r athrawon hyn yn cynllunio gwrsi wedi'u strwythuro'n ofalus, yn seiliedig ar wybodaeth fanwl am ddisgyblion unigol, i sicrhau bod tasgau'n gweddu'n agos i allu disgyblion.

Mewn llawer o achosion, mae athrawon yn defnyddio holi'n dda i brofi a dyfnhau dealltwriaeth disgyblion. Yn y gwrsi hyn, mae athrawon yn monitro cynnydd disgyblion yn agos ac yn mynd i'r afael ag unrhyw gamsyniadau yn gyflym. Mae'r athrawon hyn yn effeithiol wrth sicrhau cydbwysedd rhwng cryfhau gwybodaeth bynciol a datblygu ystod eang o fedrau disgyblion.

Mewn rhai gwrsi, mae'r addysgu'n eithriadol o effeithiol. Yn y gwrsi hyn, mae cynllunio gofalus iawn, holi medrus iawn ac amrywiaeth eang o weithgareddau hynod effeithiol, yn helpu disgyblion i wneud cynnydd rhagorol.

Bron ym mhob achos, mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd. Mae llawer o athrawon yn rhoi sylw manwl i gynnwys a chywirdeb ysgrifennu disgyblion ac yn rhoi arweiniad defnyddiol iddynt ynglŷn â sut i wella eu gwaith. Mae mwyafrif yr athrawon yn darparu cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion arfarnu a gwella eu gwaith eu hunain, a gwaith eu cyfoedion. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, nid yw athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn cymryd digon o gyfrifoldeb am wella eu gwaith eu hunain. Mewn rhai achosion, nid yw sylwadau athrawon yn ddigon manwl gywir i helpu disgyblion i wneud gwelliannau.

Mae'r ysgol wedi sefydlu prosesau cyson a thrylwyr ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion unigol ar draws yr holl grwpiau oedran. Mae'n defnyddio'r wybodaeth hon

i gynllunio ymyriadau effeithiol i fynd i'r afael ag unrhyw danberfformio neu wendidau. Mae rhieni a disgyblion yn derbyn crynodeb rheolaidd a gwerth chweil o gynnydd yn seiliedig ar berfformiad a chynnydd presennol tuag at dargedau. Mae adroddiadau diwedd blwyddyn yn drylwyr ac yn darparu targedau ar gyfer gwella clir, sy'n benodol i bwnc.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Caiff darpariaeth yr ysgol ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad effaith gadarnhaol ar ddeilliannau ar gyfer disgyblion. Caiff anghenion cymdeithasol, emosiynol a dysgu pob disgybl eu nodi a'u cefnogi'n dda. Mae hon yn nodwedd gref yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'n cefnogi datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda, er enghraifft trwy ei rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol. Defnyddir gwasanaethau a chyfnodau tiwtor yn effeithiol i roi negeseuon cyson a chadarnhaol am agweddau a gwerthoedd yn ogystal â phresenoldeb ac ymddygiad.

Mae cydlynwyr dysgu a'u timau yn monitro presenoldeb a chynnydd disgyblion yn ofalus. Mae hyn yn galluogi iddynt nodi unrhyw bryderon yn gyflym a threfnu ymyrraeth a chymorth effeithiol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd gwerthfawr o ystod eang o asiantaethau allanol i ddarparu cymorth arbenigol pan fydd angen. Mae'n monitro'r ymyriadau hyn yn agos ac yn eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu heffeithiolrwydd.

Mae'r ysgol yn cynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Caiff disgyblion a rhieni eu cynnwys yn fuddiol mewn datblygu cynlluniau addysg unigol ac fe gânt eu hysbysu'n fanwl am gynnydd. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn addasu eu gwersi'n llwyddiannus i fodloni anghenion y disgyblion hyn. Mae cynorthwywyr cymorth dysgu yn cefnogi cynnydd disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol mewn gwersi yn dda.

Mae'r ysgol yn rhoi cyngor ac arweiniad defnyddiol i ddisgyblion pan fyddant yn gwneud dewisiadau ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4. Mae'r ysgol yn cefnogi cyfnod pontio disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol i addysg bellach yn arbennig o dda.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

### **Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol**

Mae gan yr ysgol ethos hynod ofalgar a chynhwysol lle mae staff a disgyblion yn dangos parch a phryder at ei gilydd. Rhoddir pwyslais clir ar sicrhau cyfle cyfartal i bob un o'r disgyblion, beth bynnag fo'u cefndir. Mae staff a disgyblion yn hynod gefnogol o'i gilydd ac o lwyddiannau unigolion a chymuned yr ysgol gyfan. Mae disgyblion yn dangos balchder eithriadol yn eu hysgol.

Mae adeilad a thir yr ysgol yn darparu amgylchedd dysgu sy'n bodloni anghenion disgyblion yn dda iawn. Mae gwelliannau diweddar i adeilad yr ysgol wedi arwain at

amgylchedd tawel, diogel a deniadol sy'n cefnogi dysgu'n effeithiol iawn. Mae hyn hefyd wedi cynyddu hunan-barch disgyblion a'u synnwyr o falchder yn eu hysgol. Mae arddangosfeydd deniadol mewn coridorau yn hynod lwyddiannus o ran hyrwyddo cyflawniadau disgyblion yn yr ysgol a'r tu allan. Mae'r holl ardaloedd addysgu a mannau cymunedol yn groesawgar, yn drefnus ac yn cynnwys offer da. At ei gilydd, mae'r ysgol yn darparu adnoddau dysgu o ansawdd da ar gyfer yr holl ddisgyblion, gydag offer TGCh a meddalwedd hynod ddefnyddiol.

<b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

### **Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth bwrpasol a phendant, sy'n cael effaith amlwg ar bob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae'n cyfleu yn glir ei disgwyliad fod cymuned yr ysgol gyfan yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau llwyddiant pob disgybl. Mae hyn yn creu ethos ysgol cefnogol a chadarnhaol lle caiff pawb ei werthfawrogi a'r rhan fwyaf ohonynt eu cymell i lwyddo.

Mae uwch arweinwyr yn deall eu rolau'n dda ac yn rhoi cymorth defnyddiol iawn i'r pennaeth. Gyda'i gilydd, maent yn ffurfio tîm arweinyddiaeth gynyddol effeithiol. Mae hyn wedi cyfrannu at welliannau clir mewn agweddau pwysig ar waith yr ysgol, gan gynnwys ansawdd yr addysgu, presenoldeb disgyblion a'r safonau a gyflawnir ganddynt. Mae'r ysgol yn cynllunio'n llwyddiannus iawn i fodloni blaenoriaethau cenedlaethol, fel sicrhau nad yw disgyblion yn tangyflawni o ganlyniad i anfantais gymdeithasol.

Mae uwch arweinwyr yn dwyn arweinwyr canol i gyfrif yn dda. Cynhelir cyfarfodydd yn rheolaidd ac maent yn canolbwyntio'n gyson ar addysgu a dysgu a chodi safonau ymhellach. Yn eu tro, mae'r rhan fwyaf o arweinwyr canol yn herio eu timau yn llwyddiannus i gefnogi'r gwelliannau parhaus mewn darpariaeth a deilliannau disgyblion. Mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn defnyddio data yn dda. Mae cydlynwyr dysgu yn meddu ar drosolwg bugeiliol ac academiaidd defnyddiol iawn o ddisgyblion. Mae ganddynt ran bwysig mewn olrhain cynnydd disgyblion a nodi tangyflawniad. Mae hyn yn golygu y gall pynciau gynnig ymyrraeth fuddiol yn ôl yr angen i gefnogi cynnydd disgyblion.

Mae gan yr ysgol brosesau cadarn a ddeallir yn dda i reoli perfformiad staff. Mae hyn yn nodi anghenion datblygiad proffesiynol pob un o'r staff yn dda ac yn cysylltu'n addas â rhaglen datblygiad proffesiynol yr ysgol.

Mae llywodraethwyr yn deall cryfderau'r ysgol a'r meysydd y mae angen eu datblygu ymhellach yn dda. Mae ganddynt ddealltwriaeth gynhwysfawr o ddata perfformiad disgyblion ac maent yn monitro cyllideb yr ysgol yn ofalus. Mae ganddynt rôl glir o ran gosod cyfeiriad strategol yr ysgol ac maent yn cyflawni rôl ffrind beirniadol yn dda.

## **Gwella ansawdd: Da**

Mae prosesau hunanarfarnu'r ysgol yn rheolaidd ac yn cael eu deall yn dda, ac maent yn ffurfio sylfaen gref dros ei chynlluniau ar gyfer gwella. O ganlyniad, ceir tuedd o wella mewn meysydd pwysig, sy'n arwain at gyfraddau uchel iawn o bresenoldeb, perfformiad cryf ac addysgu o ansawdd cyson dda. Mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn adnabod eu hysgol yn dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir ar y cyd o'r blaenoriaethau ar gyfer gwella.

Mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn dadansoddi data perfformiad yn drylwyr ac yn canolbwyntio'n dda ar dueddiadau a chymhariaeth ag ysgolion tebyg. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth wedi gweithio'n effeithiol gydag arweinwyr canol i ddatblygu eu gallu i asesu deilliannau a pherfformiad yn eu meysydd. Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr canol yn dadansoddi safonau cyflawniad yn eu meysydd cyfrifoldeb yn dda. O ganlyniad, caiff unrhyw feysydd tanberfformio eu nodi'n gyflym ac fe gaiff camau eu cymryd i ysgogi gwelliant.

Mae hunanarfarnu yn seiliedig ar ystod eang ac addas o dystiolaeth uniongyrchol, gan gynnwys arsylwadau gwersi, craffu ar waith disgyblion, dadansoddi data, gwrando ar weithgareddau dysgwyr ac arolygon rhieni. Mae'r rhan fwyaf o weithgareddau yn canolbwyntio'n dda ar effaith y ddarpariaeth ar safonau. Fodd bynnag, er bod craffu ar lyfrau wedi gwella cysondeb y marcio, nid yw'n arfarnu safonau gwaith disgyblion ac effaith adborth athrawon ar eu cynnydd yn effeithiol.

Caiff llywodraethwyr, staff a disgyblion eu cynnwys yn llawn mewn gweithgareddau hunanarfarnu. Adroddir yn ôl yn gyson ac yn ddefnyddiol ar y canfyddiadau fel bod gan bawb ddealltwriaeth glir o'r cryfderau, y meysydd i'w gwella a'r camau fydd yn cael eu cymryd i ysgogi gwelliant. Mae hon yn nodwedd gref.

Ceir cyswllt agos rhwng hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella ar lefel ysgol, adran a thîm. Mae'r adroddiadau hunanarfarnu a chynlluniau gwella ysgol gyfan a bron pob un o'r rhai adrannol a thîm blwyddyn yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer datblygu. Maent yn canolbwyntio'n briodol ar safonau, ansawdd yr addysgu a chynnydd tuag at flaenoriaethau cenedlaethol. Mae bron pob un o'r cynlluniau gwella yn amlinellu graddfeydd amser addas a meini prawf llwyddiant clir i alluogi arweinwyr i fonitro ac arfarnu cynnydd yn effeithiol.

## **Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae'r ysgol wedi datblygu ystod o bartneriaethau hynod effeithiol ac ystyrlon. Caiff hyn effaith sylweddol ar les a safonau disgyblion.

Mae cysylltiadau ag ysgolion cynradd partner yn eithriadol o gryf. Nodwedd nodedig yw'r gwaith a wnaed i sicrhau arfer gyson o ran dysgu ac addysgu mewn partneriaeth ag ysgolion cynradd lleol. Mae hyn yn helpu disgyblion i ymgynffwrddio'n gyflym ac maent yn elwa'n sylweddol ar barhad a dilyniant effeithiol mewn dysgu.

Mae partneriaethau cryf iawn gyda sefydliadau cymunedol o fudd i les a chyflawniad disgyblion. Mae'r partneriaethau hyn yn galluogi'r ysgol i ddarparu ymyriadau hynod effeithiol, gan gynnwys y rheiny sy'n gwella presenoldeb a chyrhaeddiad disgyblion dan anfantais.

Mae cysylltiadau effeithiol â'r coleg addysg bellach lleol yn cyfrannu'n sylweddol at godi dyheadau ac uchelgeisiau disgyblion trwy gyfranogiad y coleg mewn digwyddiadau pontio a'r diwrnod gyrfaoedd blynyddol, er enghraifft. Mae busnesau lleol a chyn-ddisgyblion yn ysbrydoli disgyblion ac yn ennyn eu brwdfrydedd trwy raglen fentora lwyddiannus yr ysgol.

Ceir partneriaethau cryf gyda rhieni. Mae rhieni'n gefnogol i'r ysgol ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo bod yr ysgol yn ymateb yn effeithiol i bryderon a materion.

### **Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn rheoli adnoddau'n ofalus ac yn defnyddio athrawon yn dda. Mae'r rhan fwyaf o'r staff nad ydynt yn addysgu yn cynorthwyo athrawon mewn modd defnyddiol. Ceir trefniadau defnyddiol iawn ar gyfer datblygiad proffesiynol pob un o'r staff. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd i fod yn rhan o'r tîm arweinyddiaeth estynedig a bod pob un o'r athrawon yn aelodau o'r grŵp addysgu a dysgu sy'n cefnogi rhannu arfer dda ar draws y cwricwlwm.

